

# Tyfu Canolbarth Cymru Cylchlythyr mis Ebrill 2023

## Cylchlythyr Ebrill: Arloesi

Y diffiniad o arloesi yw *gweithredu syniadau yn ymarferol sy'n arwain at gyflwyno nwyddau neu wasanaethau newydd neu welliant o ran cynnig nwyddau neu wasanaethau*. Mae Tyfu Canolbarth Cymru ei hun yn bartneriaeth arloesol wrth iddi ymdrechu i gynrychioli buddiannau'r rhanbarth a blaenoriaethu ar gyfer gwelliannau i'n heconomi leol.

Gyda Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Strategaeth Arloesi yn ddiweddar roeddem yn meddwl ei bod yn amserol canolbwyntio y mis hwn ar bopeth Arloesol - sut mae Tyfu Canolbarth Cymru yn ategu ac yn cefnogi gweithgareddau arloesi yn y rhanbarth a pha gyfleoedd ariannu cyfredol sydd yna i chi eu hystyried.

Rydyn ni hefyd yn dod i wybod ychydig mwy am Claire Miles, ein Rheolwr Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol, sydd wedi ateb ein sesiwn Cwrdd â'r Tîm, C&A. Mae Claire wedi bod gyda Tyfu Canolbarth o'r cychwyn cyntaf ac wedi gweithio ochr yn ochr â llawer o sefydliadau sy'n arwain gweithgareddau sydd wedi elwa o gyllid blaenorol Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar arloesi – y byddwn yn ymchwilio fwy iddynt, yn nes ymlaen yn y cylchlythyr.

Helpu i dyfu cyfleodd yn y Canolbarth,

***Tîm Tyfu Canolbarth Cymru***

**Darllenwch ymlaen am:**

- Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru
- Fframwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg Llywodraeth y DU
- Estyniad i gynllun gwarantu Horizon Europe
- Astudiaethau Achos Arloesi Canolbarth Cymru
- Cwrdd â'r tîm
- Ffaith y mis: Y Gymraes gyntaf i gael ei hethol yn Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol (FRS).
- Newyddion eraill
- Yr wybodaeth ddiweddaraf

## Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru




Ar y 27ain o Chwefror, lansiodd Llywodraeth Cymru eu Strategaeth Arloesi newydd. Bydd hyn yn bwysig o ran gosod y cyd-destun ar gyfer gweithgarwch rhanbarthol strategol ym maes ymchwil ac arloesedd cymhwysol yng Nghanolbarth Cymru.

Mae'r weledigaeth drawslywodraethol newydd o arloesi ar gyfer Cymru gryfach, tecach, gwyrddach yn pwyntio'r ffordd i ddull gwahanol o arloesi yn y dyfodol; un sy'n mabwysiadu agwedd a chydweithio "seiliedig ar genhadaeth" i'r pedair taith ganlynol:

- **Addysg:** mae'r genhadaeth hon yn helpu i sicrhau bod gan Gymru system addysg sy'n cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth arloesi trwy gydol bywydau pobl yng Nghymru, gan sicrhau talent, brwdfrydedd a photensial anhygoel ein pobl ifanc a fydd, yn y dyfodol, nid yn unig o fudd i economi Cymru ond yn gallu cael effaith wirioneddol ar fywydau pobl.
- **Economi:** mae'r genhadaeth hon yn golygu gyrru Cymru ymlaen i fod yn genedl flaenllaw, arloesol. Yn dilyn hyn bydd economi Cymru sy'n arloesi ar gyfer twf, yn cydweithio ar draws sectorau er mwyn datrys heriau cymdeithas, yn mabwysiadu technolegau newydd ar gyfer


effeithlonrwydd a chynhyrchiant, yn defnyddio adnoddau'n gymesur, ac yn caniatáu i ddinasyddion rannu cyfoeth drwy waith teg.

- **Iechyd a lles**: Mae system iechyd a gofal Cymru yn wynebu lefelau digynsail o alw. Bydd y daith hon yn golygu bod y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio â'r diwydiant, y byd academaidd a'r trydydd sector i ddarparu ffyrdd newydd o weithio sy'n rhoi mwy o werth ac effaith i ddinasyddion. Bydd hyn yn golygu eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio arloesedd i drawsnewid meysydd megis oedi wrth drosglwyddo gofal, darpariaeth gofal yn y gymuned, canser ac iechyd meddwl.
- **Hinsawdd a natur:** bydd y genhadaeth hon yn cynnwys optimeiddio ein hadnoddau naturiol ar gyfer gwarchod a chryfhau gwydnwch yr hinsawdd a natur. Bydd yn canolbwyntio ymdrechion arloesi'r ecosystem ar fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur ar yr un pryd, gan sicrhau trosglwyddiad cyfiawn i economi lles.

Wrth i raglenni presennol yr Undeb Ewropeaidd (UE) ddirwyn i ben eleni ac ansicrwydd ynghylch ymgysylltiad Cymru â mentrau gwyddonol yr UE yn y dyfodol, mae natur y dirwedd ymchwil, datblygiad ac arloesedd yng Nghymru yn newid.

Mae'r strategaeth yn gwneud ymrwymiad cadarn y bydd Gweinidogion Cymru'n ceisio sbarduno buddsoddiad gan Lywodraeth y DU a thu hwnt ym maes ymchwil, datblygiad ac arloesedd yng Nghymru.

## Fframwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg Llywodraeth y DU




Ar y 6ed o Fawrth, datgelodd Llywodraeth y DU ei Fframwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg newydd - y darn mawr cyntaf o waith o’r Adran Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg sydd newydd ei greu. Bydd

yn herio pob rhan o'r llywodraeth i roi'r DU ar flaen y gad ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg fyd-eang drwy 10 cam allweddol – gan greu dull traws-lywodraethol wedi'i gydlynu.

## Estyniad i'r Cynllun Gwarant Horizon Europe




Cyhoeddodd Llywodraeth y DU estyniad i'r cymorth a ddarparwyd i ymgeiswyr Horizon Europe y DU, a lansiwyd yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2021, ac mae Ymchwil ac Arloesi yn y DU wedi cyhoeddi grantiau gwerth mwy na £882 miliwn hyd at ddiwedd mis Chwefror 2023. Bydd yr estyniad yn sicrhau y bydd ymgeiswyr cymwys a llwyddiannus yn y DU yn parhau i gael sicrwydd o gyllid, gan eu cefnogi i barhau â gwaith pwysig o ran ymchwil ac arloesi.

Bydd y gwarant yn ei le i gwmpasu holl alwadau Horizon Europe sy'n cau ar neu cyn diwedd Mehefin 2023. Bydd ymgeiswyr cymwys a llwyddiannus i Horizon Europe yn derbyn gwerth llawn eu cyllid yn sefydliad lletyol y DU am oes eu grant.

## Astudiaethau Achos Arloesi Canolbarth Cymru

Ym mis Ionawr 2022, lansiodd AberArloesi gronfa her arloesi gyntaf erioed Canolbarth Cymru.

Nod Her Launchpad Canolbarth Cymru, oedd datblygu atebion newydd i'r sector cyhoeddus a materion cymdeithasol drwy ymchwil ac arloesedd tra'n cynnig cyfleoedd marchnad newydd i fusnesau a phobl yng Nghanolbarth Cymru.

Cafodd 14 prosiect sy'n ceisio mynd i'r afael â heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru hyd at £30,000 yr un fel rhan o'r rhaglen newydd a gafodd ei chefnogi gan Gynghorau Sir Ceredigion a Phowys o dan Gronfa Adnewyddu Cymunedol (CRF) ledled y DU a gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd busnesau arian, cymorth a defnyddio cyfleusterau AberArloesi i edrych ar heriau gyda'u diwydiant gan gynnwys y canlynol:-

- dal a gwrthbwyso carbon
- lleihau ac ail-ddefnyddio gwastraff-amaeth
- ffynonellau cylchol o fwyd maethlon

**Mae enghreifftiau o astudiaethau achos o gronfa Launchpad i'w gweld trwy glicio ar y ddelwedd.**



*1 - [Atudiaethau achos o gronfa Launchpad ArloesiAber]*

## Cwrdd â'r tîm



*2 - Claire Miles, Rheolwr Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol*

- **Pryd ddechreuaist ti gyda'r tîm?**

Fe ddechreuais i gyda Thîm Tyfu Canolbarth Cymru nôl yn haf 2016 - bythefnos yn unig cyn Pleidlais Brexit! Yn ôl bryd hynny, dim ond tri aelod penodol o staff oedd yn gweithio ar yr agenda rhanbarthol.

- **Beth yw dy flaenoriaethau presennol?**

Mae gan fy rôl gwmpas eang, gan helpu i sicrhau aliniad ac integreiddio ar draws pob agwedd ar waith Tyfu Canolbarth Cymru.

O ran yr ymyriadau a ariennir gan Ewrop, ein blaenoriaeth nawr yw helpu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i gau rhaglen gyfredol Cronfa Buddsoddi Strwythurol Ewrop, yn ogystal â dathlu llwyddiant a gwaddol cyllid Ewropeaidd yng Nghymru. Rydym hefyd yn gweithredu fel pwynt allweddol o wybodaeth yn y tirlun polisi a chyllid newydd sydd wedi dod i'r amlwg ers ymadael â'r UE, gan helpu

rhanddeiliaid a phartneriaid cyflenwi i lywio'r hyn a ddaw nesaf, a cheisio cadw golwg ar pryd a lle mae deddf cyflawni strategol yn dod i ben ac yn dechrau o ganlyniad.

Un o fy mhrif flaenoriaethau dros y misoedd nesaf fydd adnewyddu dogfen Gweledigaeth Tyfu Canolbarth Cymru i adlewyrchu'r nifer o newidiadau yr ydym wedi'u gweld o ganlyniad i ddigwyddiadau'r tair blynedd diwethaf (Coronafeirws, Brexit, dirywiad economaidd) a helpu i sicrhau bod Tyfu Canolbarth Cymru yn canolbwyntio ar y cyfleoedd allweddol yn y tymor canolig a'r tymor hir.

- **Pa ddatblygiadau wyt ti wedi eu gweld dros y blynyddoedd?**

Gormod i'w sôn amdanynt! Yn gyffredinol, ymddangosiad a derbyn datblygiad economaidd rhanbarthol yng Nghymru – a Chanolbarth Cymru fel ei rhanbarth economaidd unigryw ei hun - yw'r datblygiad allweddol. O hynny, fe lifodd nifer o ddatblygiadau eraill - gan gynnwys Bargen Dwf y Canolbarth a Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (PSRh). Mae gweithio rhanbarthol wedi datblygu llawer yn ystod y saith mlynedd diwethaf, ac mae maint y gwaith rydyn ni nawr yn ei wneud fel Tyfu Canolbarth Cymru yn dyst i hynny.



*3 - Wedi'i geni a'i magu yn Sir Faesyfed*

- **Beth yw dy gyflawniad mwyaf?**

Mae'n dipyn o ateb syml, ond ar ôl bod gyda Tyfu Canolbarth Cymru am saith mlynedd ac yn gweithio ar draws pob agwedd ohono, rwy'n edrych ar bopeth rydyn ni wedi'i gyflawni fel fy llwyddiant mwyaf. Yn ystod dyddiau cynnar Tyfu Canolbarth Cymru fe dreuliais i lawer o amser yn cefnogi aelodau etholedig a swyddogion i wneud yr achos dros Ganolbarth Cymru fel rhanbarth, wedyn ar gyfer Bargen Twf, wedyn am PSRh... y gwaith oedd yn cael ni lle rydyn ni heddiw.

- **Beth yw dy obaith mwyaf i'r Canolbarth?**

Cefais fy ngeni a'm magu yn Maesyfed, es i'r brifysgol yn Aberystwyth, ac wedi treulio mwyafrif fy mywyd yng Nghanolbarth Cymru. Fy ngobaith mwyaf yw y bydd yr holl waith yr ydym yn ei wneud ar draws yr holl wahanol swyddogaethau Tyfu Canolbarth Cymru yn cael yr effaith yn y pen draw ac yn cynhyrchu'r canlyniadau yr ydym yn eu rhagweld, a bydd pobl ifanc Canolbarth Cymru fel fy nith a fy nai yn cael cyfleoedd na chefais i.

- **Un gair sy'n crynhoi Tîm Tyfu Canolbarth Cymru:**

Blaengar

## **Ffaith y mis:** Y Gymraes gyntaf i gael ei hethol yn Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol

### Florence Gwendolen Rees



*4 - Yr Athro F. Gwendolen Rees. Llun: Prifysgol Aberystwyth*

Swolegydd a pharasitolegydd o Gymru oedd Florence Gwendolen Rees, (3ydd Gorffennaf 1906 – 4ydd Hydref 1994), a fu, yn olynol, yn Ddarlithydd Cynorthwyol, Darlithydd, Uwch Ddarlithydd, Darllenydd, ac Athro ac a  ddaeth yn Athro Emeritws yn 1973. Hi oedd y fenyw Cymreig cyntaf i ddod yn gymrawd y Gymdeithas Frenhinol a chafodd ei hethol hefyd yn Gymrawd y Sefydliad Bioleg. Bu'n Is-Lywydd a Llywydd Cymdeithas Parasitoleg Prydain ac fe gyhoeddodd 68 o bapurau ymchwil gwreiddiol, yn ogystal â hyfforddi llawer o fyfyrwyr.

Er mwyn ei hanrhydeddu, mae Prifysgol Aberystwyth wedi cyhoeddi ei bod yn ailenwi cyn adeilad Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ar gampws Penglais, sydd bellach yn gartref i Adran y Gwyddorau Bywyd a sefydlwyd yn 2022. Darllenwch fwy am ei gwaith ym Mhrifysgol Aberystwyth ar wefan y brifysgol.

## Newyddion eraill

### Adroddiad Astudiaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru a Chynllun Gweithredu

Comisiynwyd Fourth Street, Cwmni Place Capital Group, gan Tyfu Canolbarth Cymru i gyflwyno Strategaeth Dwristiaeth Ranbarthol Canolbarth Cymru.

Wrth lunio'r adroddiad at ei gilydd, cynhaliwyd ymchwil a dadansoddi helaeth, a gefnogir gan ymgynghoriad eang.


Mae'r adroddiad yn rhoi darlun cryf i ni o'r darlun presennol o dwristiaeth yn y rhanbarth, gan gynnwys ei lwyddiannau, yr heriau allweddol y mae'n eu hwynebu, a dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Bwriad yr adroddiad yw sbarduno trafodaeth bellach ynghylch themâu a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg, wrth i ni gydweithio tuag at weledigaeth gyffredin ar gyfer datblygu twristiaeth yng Nghanolbarth Cymru.

Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- dadansoddiad o’r sector twristiaeth ar hyn o bryd ar draws y rhanbarth, gan gynnwys dynameg dyfodiad twristiaeth domestig a rhyngwladol
- archwiliad o’r atyniadau i ymwelwyr, cynnig llety, bwyd a diod a darpariaeth manwerthu ar draws Canolbarth Cymru. Edrychwch ar yr adroddiad llawn ar wefan Tyfu Canolbarth Cymru, ar dudalen Dogfennau, o dan Astudiaethau Ymchwil.

Mae'r cynllun gweithredu cyfatebol yn nodi argymhellion buddsoddi a'r camau nesaf i adeiladu economi ymwelwyr Canolbarth Cymru trwy wella ac ehangu ar asedau sy'n bodoli eisoes a gwella strwythurau cymorth y sector.




## Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda’r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Dyma nodyn i’ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy’n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy’n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi’n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad

ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru

.